**Adolygiad Annibynnol Gwasanaeth Cyntaf ac Achub De Cymru o Ddiwylliant,**

**Disgyblaeth Prosesau ac Achosion Disgyblaeth Hanesyddol ("yr Adolygiad")**

**Hysbysiad Preifatrwydd yr Adolygiad**

**1.** Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio sut mae'r Adolygiad yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol ac yn rhoi gwybod i chi am natur y wybodaeth bersonol y mae'r Adolygiad yn ei chasglu amdanoch a sut mae'r Adolygiad yn ei phrosesu yn unol â rhwymedigaethau GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018.

2. Cadeirydd Annibynnol yr Adolygiad yw Fenella Morris CB ac mae cyfeiriad at yr Adolygiad yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn cynnwys cyfeiriad at y Cadeirydd.

3. Ceir rhagor o fanylion am amcanion yr Adolygiad yma ac mae'r cylch gorchwyl ar gael yma.

4. Mae Fenella Morris CB, fel Cadeirydd yr Adolygiad, yn rheolydd data sy'n gyfrifol am y wybodaeth bersonol a brosesir at ddibenion yr Adolygiad, yn unol â Chylch Gorchwyl yr Adolygiad. Cyfeiriad proffesiynol Fenella Morris CB yw 39 Essex Chambers, 81 Chancery Lane, Llundain WC2A 1DD.

5. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y defnydd o'ch data personol gan yr Adolygiad, neu os hoffech arfer eich hawliau a nodir yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn, mae croeso i chi anfon e-bost at adolygiadgtadc@gmail.com.

6. Mae hysbysiad preifatrwydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, sy'n nodi sut y bydd GTADC yn rhannu data personol â'r Adolygiad, ar gael yma.

**Y wybodaeth bersonol a gasglwyd**

7. Mae'r Adolygiad yn casglu gwybodaeth bersonol gennych chi at ddibenion yr Adolygiad yn unig. Bydd yr Adolygiad hefyd yn casglu ac yn cadw manylion cyswllt. Mae cofnodion yr Adolygiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol, a all gynnwys gwybodaeth bersonol sensitif (a elwir yn 'ddata categori arbennig'). Gallai gwybodaeth o'r fath gynnwys enw, oedran neu ddyddiad geni, rhyw, rôl, teitl swydd, proffil rôl a/neu deitl swydd, statws cyflogaeth, cymwysterau, cofnodion perfformiad a hyfforddiant, manylion profiad, cofnodion disgyblu, manylion cwynion, pryderon, achwyniadau, cyfweliadau ymadael (gan gynnwys manylion canlyniadau ac unrhyw gamau a gymerwyd neu na chymerwyd), gwybodaeth am iechyd corfforol neu feddyliol, anafiadau a/neu driniaeth feddygol, tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol neu aelodaeth o undeb llafur, bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol, erlyniad(au) troseddol, collfarn(au) a/neu ddedfryd(au), cyhuddiadau na arweiniodd at erlyniad, troseddau gwirioneddol neu honedig a/neu adroddiadau digwyddiad nad arweiniodd at gyhuddiad.

8. Gallai'r data personol a gesglir gan yr Adolygiad ymwneud â staff cyfredol GTADC, staff blaenorol GTADC, unigolion sydd wedi gwneud cwynion, wedi chwythu'r chwiban, wedi cyflwyno cyfweliadau ymadael, neu wedi codi achwyniadau i GTADC, unigolion oedd yn destun cwynion, chwythu'r chwiban, cyfweliadau ymadael, neu gwynion a wnaed i GTADC, unigolion sydd wedi bod yn destun camau disgyblu neu ymchwiliadau a gynhaliwyd gan GTADC, unigolion sydd wedi cyfrannu fel tystion neu bartïon eraill at

gwynion, chwythu’r chwiban, cyfweliadau ymadael, neu gwynion a wnaed i GTADC ac unigolion sy’n dymuno cymryd rhan yn yr Adolygiad.

9. Pan fyddwch yn ysgrifennu’r Adolygiad, bydd yr Adolygiad yn storio eich enw, e-bost a/neu gyfeiriad post ac unrhyw wybodaeth bersonol arall y byddwch yn ei gynnwys i'r Adolygiad. Os byddwch yn cyfarfod wyneb yn wyneb, neu drwy gyswllt fideo, neu’n siarad dros y ffôn, mae’r Adolygiad yn storio ac yn prosesu unrhyw nodiadau a recordiadau o’r wybodaeth bersonol a roddwch i’r Adolygiad yn ystod y cyfarfod neu sgwrs.

10. O bryd i'w gilydd, mae'n bosibl y caiff y Cylch Gorchwyl ei ddiweddaru neu ei ddiwygio a gellir diweddaru neu ddiwygio cwmpas y wybodaeth y bydd yr Adolygiad yn ei hystyried a gallai fod angen prosesu gwybodaeth bellach. Os felly, bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i unrhyw wybodaeth o’r fath a bydd yr Adolygiad yn diweddaru’r hysbysiad preifatrwydd hwn yn unol â hynny.

### Dibenion prosesu gwybodaeth bersonol

11. Mae'r Adolygiad yn prosesu eich gwybodaeth bersonol at ddibenion cyflawni amcanion yr Adolygiad yn unig, yn unol â'i Gylch Gorchwyl. Mae'r Adolygiad yn ei gasglu er mwyn hel gwybodaeth sy'n berthnasol i'r Adolygiad. Mae'r Adolygiad yn ei storio a'i ddadansoddi er mwyn i'r Adolygiad allu cynhyrchu adroddiad, ac, wedi hynny, er mwyn ymdrin ag unrhyw faterion a allai godi o ganlyniad i'r Adolygiad. Defnyddir gwybodaeth bersonol gan yr Adolygiad mewn nifer o ffyrdd – er enghraifft, i gasglu tystiolaeth, i hwyluso mynediad i’r Adolygiad, ac i gyfathrebu â chi am yr Adolygiad. Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio yn unol â’r gyfraith, gan gynnwys unrhyw rwymedigaethau cytundebol mewn cysylltiad â’r Adolygiad.

### Cyfrinachedd

12. Bydd pob cyfraniad i'r Adolygiad yn cael ei drin yn unol â'r Atodiad Cyfrinachedd, Preifatrwydd a Braint y Cylch Gorchwyl (“yr Atodiad”).

13. Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu â gwasanaeth trawsgrifio annibynnol cyfrinachol, er mwyn ei alluogi i ddarparu trawsgrifiadau i'r Adolygiad at ddibenion yr Adolygiad.

14. Ni fydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu i unrhyw unigolyn neu sefydliad oni bai eich bod yn cytuno neu fod yr Adolygiad yn ystyried bod angen ei datgelu fel y nodir yn yr Atodiad.

### Sut mae’r Adolygiad yn casglu gwybodaeth bersonol

15. Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth bersonol y mae'r Adolygiad yn ei phrosesu yn cael ei darparu'n uniongyrchol gennych chi am un neu fwy o'r rhesymau canlynol:

    15.1. Rydych chi eisiau rhoi gwybodaeth i’r Adolygiad;

    15.2. Gofynnwyd i chi ddarparu tystiolaeth i'r Adolygiad, ar ffurf datganiad ysgrifenedig a/neu lafar a/neu ddogfennau;

    15.3. Rydych chi wedi rhoi tystiolaeth ar gyfer yr Adolygiad;

15.4. Rydych chi wedi cysylltu â'r Adolygiad drwy law e-bost, cyswllt fideo, ffôn a/neu llythyr;

15.5. Rydych yn dymuno mynychu, neu wedi mynychu, cyfarfod neu gyfweliad gyda Fenella Morris CB neu aelod arall o'r Tîm Adolygu;

15.6. Rydych yn cynrychioli eich sefydliad mewn perthynas â'r Adolygiad.

16. Gallai'r Adolygiad hefyd dderbyn gwybodaeth amdanoch chi mewn ffyrdd eraill. Er enghraifft, fel rhan o'i ymchwiliad mae gan yr Adolygiad fynediad at gofnodion sefydliadol gan GTADC – gweler hysbysiad preifatrwydd GTADC yma am ragor o fanylion. Gallai unigolion eraill hefyd gynnwys gwybodaeth amdanoch chi yn eu tystiolaeth i'r Adolygiad.

**Seiliau cyfreithiol ar gyfer prosesu**

17. Y seiliau cyfreithiol gwahanol y gallai'r Adolygiad ddefnyddio i brosesu eich gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon yw:

17.1. Mae prosesu'r wybodaeth bersonol yn angenrheidiol at ddibenion y budd cyfreithlon o gynnal yr Adolygiad er mwyn cynhyrchu adroddiad, yn unol â'r Cylch Gorchwyl; neu

17.2. mewn rhai amgylchiadau, gyda chaniatâd penodol yr unigolyn.

18. Lle mae'r Adolygiad yn prosesu data categori arbennig (megis gwybodaeth am iechyd (iechyd corfforol neu feddyliol neu anableddau), cyfeiriadedd rhywiol, hil neu darddiad ethnig, credoau crefyddol neu ddata troseddau) y prif amod y bydd yr Adolygiad yn dibynnu arno i'w ddefnyddio bydd gwybodaeth o'r fath ar y sail bod prosesu'r data categori arbennig yn angenrheidiol am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd, yn enwedig ar gyfer:

18.1. dibenion atal neu ganfod gweithred(au) anghyfreithlon - paragraff 10 o Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018

18.2. dibenion diogelu aelodau'r cyhoedd rhag anonestrwydd, camymddygiad neu ymddygiad arall sy'n ddifrifol amhriodol, anaddasrwydd neu anghymhwysedd, camreoli yng ngweinyddiad corff neu gymdeithas, neu fethiannau mewn gwasanaethau a ddarperir gan gorff neu gymdeithas. - paragraff 11 o Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018.

18.3. dibenion cydymffurfio â gofyniad rheoliadol, neu gynorthwyo personau eraill i gydymffurfio ag ef (gan gynnwys gofyniad a osodir gan ddeddfwriaeth neu gan berson wrth arfer swyddogaeth a roddir gan ddeddfwriaeth neu ofyniad sy'n ffurfio rhan o egwyddorion arfer da a dderbynnir yn gyffredinol mewn perthynas â math o gorff neu weithgaredd) sy'n ymwneud â pherson yn cymryd camau i sefydlu a yw person arall wedi cyflawni gweithred anghyfreithlon, neu wedi bod yn rhan o anonestrwydd, camymddwyn neu ymddygiad arall sy'n ddifrifol amhriodol - paragraff 12 o Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018

18.4. dibenion amddiffyn unigolion sy'n wynebu risg o esgeulustod neu niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol neu ddiogelu llesiant corfforol, meddyliol neu emosiynol unigolyn (paragraff 18 o Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018).

19. Gallai'r Adolygiad hefyd ddibynnu ar ganiatâd i brosesu'r data categori arbennig.

**Diogelwch gwybodaeth bersonol**

20. Bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei storio ar wasanaethau TG allanol yr Adolygiad ei hun a/neu rhai trydydd parti, darparwyr storio cwmwl a darparwyr storio dogfennau ar delerau sy'n diogelu diogelwch a, lle y'i cedwir ar wasanaethau neu storfa trydydd parti, lle bod gan yr Adolygiad gytundeb prosesu priodol (neu amddiffyniadau tebyg) ar waith. Nid yw'r trefniadau gyda'r trydydd partïon hynny yn caniatáu trosglwyddo y tu allan i'r DU a'r AEE. Bydd unrhyw wybodaeth copi caled yn cael ei storio yn ystafell Fenella Morris CB yn 39 Siambr Essex, neu siambrau aelodau'r Timau Adolygu, sydd hefyd yn cynnwys Littleton Chambers.

21. Mae'r Adolygiad wedi ymrwymo i gymryd pob cam rhesymol a phriodol i ddiogelu'r wybodaeth bersonol y mae'r Adolygiad yn ei chasglu oddi wrthych rhag ei defnyddio neu ei datgelu'n amhriodol, rhag mynediad diawdurdod, addasiadau anawdurdodedig a dinistr anghyfreithlon neu golled ddamweiniol. Mae'r Adolygiad wedi cymryd a bydd yn cymryd mesurau diogelwch gwybodaeth, technegol, storio a threfniadol priodol i'r perwyl hwnnw, gan gynnwys mesurau i ymdrin ag unrhyw amheuaeth o dorri rheolau data. Mae'n ofynnol i'r holl wasanaethau TG trydydd parti hynny sy'n cael eu hallanoli, a'r darparwyr storio cwmwl a storio dogfennau sy'n gysylltiedig â phrosesu eich gwybodaeth barchu cyfrinachedd eich gwybodaeth bersonol, fel y mae'r gwasanaeth trawsgrifio annibynnol.

**Y cyfnod y bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei storio**

22. Bydd yr Adolygiad yn prosesu eich gwybodaeth bersonol drwy gydol yr Adolygiad. Wedi hynny, bydd yr Adolygiad yn cadw'r cyfryw wybodaeth am y cyfnod a ganiateir neu a fynnir gan y gyfraith (gan gynnwys cyfraith diogelu data) pan fo'r Adolygiad yn ystyried bod angen gwneud hynny at ddiben budd cyfreithlon. Heb fod yn fwy na 12 mis ar ôl i'r Adolygiad ddod i ben, bydd Fenella Morris CB yn penderfynu a ddylid cadw'r wybodaeth bersonol am unrhyw gyfnod hwy. Bydd yr Adolygiad yn ystyried maint, natur a sensitifrwydd y wybodaeth bersonol, y risg o niwed posibl o ddefnydd neu ddatgeliad anawdurdodedig, y dibenion y mae angen i'r Adolygiad brosesu gwybodaeth o'r fath ar eu cyfer ac a all yr Adolygiad eu cyflawni trwy ddulliau eraill.

23. Ymhen y 12 mis hynny (neu unrhyw gyfnod hwy y gallai'r Adolygiad benderfynu ei fod yn angenrheidiol), bydd yr Adolygiad yn cymryd pob cam angenrheidiol a phriodol i ddinistrio'ch gwybodaeth bersonol neu ei rhoi tu hwnt i ddefnydd.

24. Os mai dim ond am gyfnod byr y bydd gwybodaeth bersonol a roddwch i'r Adolygiad yn ddefnyddiol (er enghraifft, unrhyw fanylion cyswllt dros dro neu wybodaeth arall y gallai'r Adolygiad benderfynu nad oes angen eu cadw yn ystod cynnal yr Adolygiad). Gallai'r Adolygiad ei ddileu cyn y cyfnodau amser a nodir uchod.

**Beth yw eich hawliau?**

25. Nid oes unrhyw rwymedigaeth arnoch i ddarparu eich gwybodaeth bersonol i'r Adolygiad at ddibenion yr Adolygiad. Os byddwch yn dewis darparu eich gwybodaeth bersonol i'r Adolygiad, mae gennych hawl i ofyn am:

25.1 mynediad at eich gwybodaeth bersonol, a darparu copïau;

25.2 cywiro gwybodaeth bersonol anghywir neu anghyflawn

25.3 dileu eich gwybodaeth bersonol;

25.4 cyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth bersonol; a

25.5 cludadwyedd data, h.y. trosglwyddo eich gwybodaeth bersonol

26 Os dymunwch arfer unrhyw un o'r hawliau hyn, cysylltwch â Fenella Morris CB. Mae deddfwriaeth diogelu data yn darparu ar gyfer yr amgylchiadau lle mae'n rhaid iddi gytuno i geisiadau o'r fath. Os bydd yn gwrthod, bydd yn egluro'r sail gyfreithiol dros wrthod. Gallai gadw cofnod o'ch cyfathrebiadau, er mwyn helpu i ddatrys unrhyw faterion a godwch.

27 Mae gennych hefyd hawl i wrthwynebu i'r Adolygiad brosesu eich gwybodaeth bersonol, lle mae'n ei phrosesu achos ei bod yn angenrheidiol er budd cyfreithlon yr Adolygiad, GTADC neu unrhyw drydydd parti.

**Eich hawl i gyflwyno cwyn gyda'r awdurdod goruchwylio**

28 Os oes gennych bryder am unrhyw agwedd ar yr arferion preifatrwydd hyn, gan gynnwys y ffordd yr ymdriniwyd â'ch gwybodaeth bersonol, gallwch roi gwybod i Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth y DU (ICO). Gallwch ddod o hyd i fanylion am sut i wneud hyn ar wefan yr ICO yn https://ico.org.uk/concerns, neu drwy ffonio'r llinell gymorth ar 0303 123 1113.

**Rhyddid Gwybodaeth**

29 Mae'r Adolygiad yn cael ei weithredu'n annibynnol i GTADC. Felly, nid oes gan GTADC unrhyw hawl mynediad at gyfathrebiadau o fewn yr Adolygiad neu rhwng yr Adolygiad ac eraill, tystiolaeth a gasglwyd gan yr Adolygiad, ei asesiad o dystiolaeth o'r fath, a/neu gyngor cyfreithiol a roddwyd i'r Adolygiad a'r Cadeirydd.

30 Nid yw'r Cadeirydd a'r Adolygiad yn awdurdodau cyhoeddus sy'n atebol i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 na Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 ac nid ydynt yn cadw gwybodaeth ar ran GTADC.

**Newidiadau i'r Hysbysiad Preifatrwydd Hwn**

31 O bryd i'w gilydd, mae'n bosibl y caiff y Cylch Gorchwyl ei ddiweddaru neu ei ddiwygio a gellir diweddaru neu ddiwygio cwmpas y wybodaeth y bydd yr Adolygiad yn ei hystyried ac felly gallai fod angen prosesu gwybodaeth bellach. Os felly, bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i unrhyw wybodaeth o'r fath a bydd Fenella Morris CB yn diweddaru'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn unol â hynny.

32 Gallai Fenella Morris CB wneud newidiadau i'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd. Er mwyn sicrhau eich bod bob amser yn ymwybodol o sut mae hi'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol, bydd yn diweddaru'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn lle mae angen iddi adlewyrchu unrhyw newidiadau i ddefnydd yr Adolygiad o'ch gwybodaeth bersonol. Gallai hefyd wneud newidiadau, yn ôl y gofyn, i gydymffurfio â newidiadau yn y gyfraith berthnasol neu ofynion rheoleiddiol. Bydd yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau o'r fath drwy e-bost, neu unrhyw ddulliau cyfathrebu eraill y byddwch yn gofyn amdanynt.